blwyddyn erbyn hyn, a dyna'r trefniant ar gyfer eleni eto.
Mae croeso i blant Carmel a Bethlehem ymuno â ni os ydynt yn dymuno hynny.

Mae'r cwrs ar gyfer plant 8 i 12 oed, sef plant Blwyddyn 3 i 6 (ond mae'n rhaid eu bod wedi cael eu pen blwydd yn 8 oed erbyn dyddiad y cwrs, yn ôl rheolau'r Coleg .

Bwriedir trefnu bws eleni eto i fynd â'r plant i'r Bala ac yn ôl.

Mae hwn wedi bod yn gwrs poblogaidd dros y blynyddoedd, ac mae'r plant wedi mwynhau eu hunain arno. Mae'n gyfle iddynt ddysgu am Iesu Grist trwy bob math o wahanol weithgareddau. Bydd cyfle hefyd i fynd i nofio yn y pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden y dref ac i wylio ffilm yn y Coleg ar y nos Sadwrn.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir y Cyfarfod Chwarter nesaf yng nghapel Bethlehem, Talybont am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 27. Bydd y Pwyllgor Gwaith yno fore yfory, dydd Llun, Ebrill 11.

Cyhoeddiadau

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 10
5.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

Ebrill 17
5.00 p.m. - Y Gweinidog
(Oedfa Gymun)

Ebrill 24
5.00 p.m. -

CEFNYWAUN AC EBENESER
Dydd Sul, Ebrill 17: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Dydd Mawrth, Ebrill 12: Bore Coffi rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.
Dydd Sul, Ebrill 17: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Huw Tegid Roberts. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal merched Parti Bytholwyrdd.

REHOBOTH
Dydd Sul, Ebrill 17: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM
Dydd Sul, Ebrill 17: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Emlyn Richards, Cemaes.

CARMEL
Nos Wener, Ebrill 15: 'Dwylo Prysur' am 6.30 o'r gloch.
Dydd Sul, Ebrill 17: Cynhelir oedfa am 5.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE
Dydd Gwener, Ebrill 15: Cynhelir y Cyfarfod Gweddi wythnosol yn Cartref, Caeathro am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 10
10.00 a.m. - Y Gweinidog

Ebrill 17
10.00 p.m. - Mr Huw Tegid Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd

Ebrill 24
10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 678: Dydd Sul, 10 Ebrill, 2016

Trosedd Victoria

Peth peryglus yw doethinebu ynghylch sefyllfaoedd sy'n ddieithr i ni. A pheth mwy peryglus fyth yw gwneud hynny wrth drafod pobl y maen nhw a'r hyn sy'n digwydd iddyn nhw'r un mor ddieithr i ni. Ar y gorau, dibynnu ar yr hyn a glywn ac a ddarllenwn a fyddwn i, ac fe all rhai o'r pethau hynny fod yn anghywir. 'Calla dawo' yw hi fel arfer gyda'r pethau hyn. Ond heddiw, mentraf gyfeirio at achos Victoria Wasteney, er na wn i ond yr hyn a ddarllenais amdani'r dydd o'r blaen.

Uwch therapydd galwedigaethol gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Nwyrain Llundain yw Ms Wasteney. Cafodd ei gwahardd o'i gwaith yn 2014 am aflonyddu ar un o'i chydweithwyr a'i bwlio. Y llynedd, mewn tribiwnlys diwydiannol, fe ddyfarnwyd nad oedd ei chyflogwyr wedi ei thrin yn annheg wrth ei gwahardd o'i gwaith a rhoi rhybudd ysgrifenedig iddi ynglŷn â'i hymddygiad yn y gweithle. Yr wythnos ddiwethaf, roedd hi'n apelio yn erbyn y dyfarniad hwnnw; ond fe wrthododd y barnwr yr apêl. Ac felly, mae Victoria Wasteney, yng ngolwg y ddeddf, yn dal yn euog o aflonyddu a bwlio.

A beth yn union a wnaeth o'i le? Dau beth, mae'n debyg. Y drosedd gyntaf oedd rhoi llyfr yn anrheg i'w chyfaill o gydweithwraig. Yr ail drosedd oedd gweddio gyda'r gydweithwraig wedi i honno ddod ati i rannu ei gofid. Fe ddylwn egluro mai Cristion yw Ms Wasteney, a'i chyfaill yn Foslem.

Dyma achos o bwys i bawb sy'n ymboeni am ryddid crefyddol yng ngwledydd Prydain heddiw. Nid mater o amddiffyn popeth a wna pob Cristion ar bob achlysur ydyw. Gall rhai Cristnogion fod yn annoeth wrth ymdrin â phobl o grefyddau eraill. Ond nid yw'n ymddangos mai dyna a ddigwyddodd yn yr achos hwn. Roedd Ms Wasteney a'i chyfaill wedi arfer trafod eu ffydd ac wedi ymgyrchu gyda'i gilydd yn erbyn y fasnach mewn pobl. Roedd hi wedi gofyn i'w chyfaill a gâi hi weddio gyda hi wedi i honno rannu ei gofid. Roedd hi'n meddwl bod yr anrheg o lyfr Cristnogol a oedd yn adrodd stori gwraig o Foslem yn troi at y Ffydd Gristnogol wedi ei dderbyn yn llawen. Yn nes ymlaen y trodd pethau'n chwerw, wedi i'r cyflogwyr dderbyn cŵyn am y cyfan.

Nid dweud ydw i fod Ms Wasteney wedi gweithredu'n gwbl ddi-fai. Dwi ddim yn ei nabod, a does gen i ddim modd o wybod. Ond yr hyn sy'n awgrymu iddi gael cam yw'r ffaith na chyflwynodd ei chyfaill dystiolaeth yn ei herbyn i'r cyflogwyr na'r tribiwnlys. Trwy ddyfarnu yn ei herbyn, mae'r barnwr a'r tribiwnlys wedi ei gwneud yn anodd iawn i unrhyw Gristion, ac unrhyw un o ffydd arall mae'n debyg, rannu ei ffydd yn agored yn y gweithle gyda chyfeillion, heb i hynny rywbryd wedyn gael ei ddehongli fel aflonyddu a bwlio. Dydd digalon fydd hwnnw pan na all pobl drafod a gweithredu eu ffydd mewn brawdgarwch a chariad.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

BEIBL BYW

'Y mae geiriau'r ARGLWYDD yn eiriau pur: arian wedi ei goethi mewn ffwrnais, aur wedi ei buro seithwaith' (Salm 12:6).

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Ni chynhelir oedfa MOLI heno.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwyndaf Jones, Bangor.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Tecwyn Roberts.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Angladd

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mrs Gwyneth Roberts, Swn y Gwynt, Llanberis yn Capel Coch ddydd Mercher diwethaf, Ebrill 6 dan arweiniad y Gweinidog. Dilynwyd hynny gyda gwasanaeth yn yr Amlosgfa ym Mangor. Traddodwyd y deyrnged gan ei merch Sioned. Mrs Bethan Holding oedd yr organydd yn y capel ac ym Mangor.

Bu farw Gwyneth ddydd Sadwrn, Mawrth 26 yn 71 mlwydd oed, ac estynnwn ein cydymdeimlad o'r newydd i'w phriod Eifion, eu merched Sioned a Nia a'u teuluoedd, a'i chwiorydd Glenys ac Eilwen. Symuodd Gwyneth a'r teulu nôl i Lanberis o Fflint yn 1983 i agor Becws Eryri, a bu'n gwasanaethu'r ardal yn Y Becws hyd ei hymddeoliad hi ac Eifion dair blynedd ar ddeg yn ôl. Roedd yn weithiwr diflino yn y busnes ac ym mhob cylch a chymdeithas y bu'n ymwneud â hwy. Bu'n gefnogol iawn i sawl mudiad ac achos, yn cynnwys y boreau coffi misol yng Nghapel Coch, a'r Gymdeithas, a bu'n ffyddlon i'r oedfaon yn y capel. Dros y blynyddoedd hefyd bu'n mwynhau cymdeithas Côr Lleisiau Lliwedd a'r Dosbarth Cwiltio a oedd yn cyfarfod yn festri Rehoboth, Nant Peris. Roedd ganddi lawer o gyfeillion a bu'n arbennig o agos at ei chwiorydd ar hyd ei hoes. Bu'n gymdoges dda a hael, a'i gofal am ei chymdogion yn amlwg. Bydd colled fawr ar ei hôl yn y capel a'r pentref yn ogystal ag o fewn ei theulu ei hun.

Gwerthfawrogwn yn fawr benderfyniad y teulu i roi'r rhoddion a dderbynir er cof am Gwyneth at waith Capel Coch.

Sasiwn yn Llanrug

Cynhelir cyfarfodydd Sasiwn y Gogledd (neu Gymdeithasfa'r Gogledd Eglwys Bresbyteraidd Cymru) yng Nghapel y Rhos, Llanrug ddydd Mawrth a dydd Mercher, Ebrill 12 ac 13.

Gwerthu Capel Coch

Wedi blynyddoedd o ansicrwydd, gallwn gyhoeddi fod Capel Coch wedi ei werthu o'r diwedd. Dylai'r gwerthu fod wedi ei gwblhau yn derfynol erbyn diwedd yr wythnos hon. Bwriad y perchennog newydd yw troi'r capel yn dŷ; un tŷ a fydd yn gartref i'r perchennog ei hun. Mae'n dda deall ei fod yn gobeithio bydd y berthynas rhyngom fel eglwys ac yntau yn berthynas dda a hapus.

Byddwn yn cadw'r festri wrth gwrs, a'r bwriad fydd gwella rhywfaint ar y festri er mwyn hwyluso'r gwaith a'r addoliad. Bydd angen trafod y gwaith hwnnw yn fanwl dros yr wythnosau nesaf.

Yn y cyfamser, yn ystod yr wythnos nesaf hon mae rhywfaint o waith i'w wneud er mwyn gwahanu'r capel oddi wrth y festri, fel bod y ddau adeilad ar wahan i'w gilydd. Mae angen codi wal frics yn lle'r ddau ddrws o'r capel i'r festri, y naill ochr a'r llall i'r sedd fawr yn y capel. Mae'r gwaith wedi ei gychwyn yr wythnos ddiwethaf a chaiff ei orffen yr wythnos hon.

Diolch yn arbennig i'r Trysorydd, Colin Jones, sydd wedi dwyn y baich trymaf o ddigon o ran yr holl drafodaethau gyda'r cyfreithwyr a'r penseiri ac ati cyn cwblhau'r gwerthiant.

Diolch

Mae Mr Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch a Mrs Eileen Roberts, 83 Maes Padarn ill dau wedi rhoi'r gorau i'r gwaith o gadw llyfrau cyfrifon Capel Coch yn ddiweddar, wedi blynyddoedd o wasanaeth gan y naill a'r llall. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu holl waith, ac am y ffordd dawel ac effeithiol y bu iddynt wneud y gwaith ar hyd y blynyddoedd. Gwerthfawrogwn eu llafur yn fawr iawn.

Carmel

Dydd Sul, Ebrill 24

Sylwch os gwelwch yn dda mai am 3.15 o'r gloch y bydd yr oedfa yng nghapel Carmel, Llanllechid ddydd Sul, Ebrill 24. Bydd hon yn oedfa Fedydd.

Aelodau Newydd

Yn ystod yr Oedfa Gymun yng nghapel Carmel nos Sul diwethaf, derbyniwyd Mr John R Jones a Mrs Mary Anthony Jones, Yr Ynys, Rachub yn aelodau o'r eglwys. Estynwyd croeso cynnes iddynt. Mae'r ddau eisoes wedi hen ymgartrefu yn ein plith edi iddynt symud i Rachub o Meifod y llynedd.

Casgliad y Genhadaeth

Tua'r adeg yma o'r flwyddyn y gwneir y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Gwneir y casgliad eleni eto, a gobeithiwn gael y cyfan i law o fewn y pythefnos nesaf, erbyn dydd Sul, Ebrill 18. Gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Defnyddir yr arian hwn gan Adran y Chwiorydd y Presbyteriaid i gefnogi gwaith cenhadol a wneir gan weithwyr amrywiol o fewn yr enwad a gwahanol brosiectau cenhadol a dyngarol yma yng Nghymru a thramor.

Cwrs Plant yn Y Bala

Mai 13–15, 2016

Bydd cyfle i blant yr Ofalaeth fynd i aros yng Ngholeg y Bala ym mis Mai, o nos Wener, Mai 13 hyd amser cinio dydd Sul, Mai 15.

Mae'r cwrs hwn wedi ei drefnu ar y cyd â Gofalaeth Llanrug a Bethel ers sawl